



Asesiad Effaith Hawliau Plant

1. Amcanion polisi

Cyflwynodd Deddf Tybaco a Fêps 2026 (“y 2026”) oedran gwerthu newydd ar gyfer cynhyrchion tybaco ledled y DU. O 1 Ionawr 2027, bydd yn drosedd gwerthu cynhyrchion tybaco (yn ogystal â chynhyrchion smygu llysieuol a phapurau sigarêts) i unrhyw un a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009. Mae hyn yn disodli'r oedran gwerthu blaenorol o 18 oed. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd oedran gwerthu yn codi'n raddol. Nod y polisi yw creu ‘cenhedlaeth ddi-fwg’, gan leihau'r defnydd o dybaco ym mhoblogaeth y DU er mwyn atal cenedlaethau'r dyfodol rhag dechrau smygu, gan nad oes oedran diogel i smygu.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cefnogi'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg drwy nodi manylion yr hysbysiadau rhybudd y mae'n rhaid eu harddangos yn y man gwerthu ar gyfer pob cynnyrch tybaco a, phan fo swmpwerthwyr tybaco yn arddangos cynhyrchion tybaco, wrth fynedfa ardaloedd tybaco ym mangreoedd swmpwerthwyr tybaco.

Nod y gofyniad i arddangos hysbysiadau oedran gwerthu yw helpu i godi ymwybyddiaeth o gyfyngiadau'r oedran gwerthu a hyrwyddo cydymffurfedd. Mae'r Rheoliadau yn cefnogi hyn drwy sicrhau bod yr hysbysiadau a'r testun a ddangosir arnynt yn ddigon mawr i fod yn hollol weladwy i gwsmeriaid a manwerthwyr, a'i bod hefyd yn dal i fod yn ymarferol i fanwerthwyr eu harddangos.

Er bod yr hysbysiadau eu hunain yn cefnogi nod iechyd y cyhoedd o sicrhau nad yw plant yn cael mynediad at gynhyrchion tybaco, mae'r Rheoliadau yn diwygio maint lleiaf y ffont gofynnol, a dimensiynau'r hysbysiad, yn bennaf er mwyn sicrhau bod y datganiadau testun newydd yn ddwyieithog a bod digon o le iddynt ar yr hysbysiad fel bod y geiriad yn hawdd ei weld.

2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Mae smygu yn achosi niwed drwy gydol bywydau pobl, ac mae'n gyfrifol am fwy na [3800 o farwolaethau y flwyddyn yng Nghymru](#). Mae'n ffactor risg mawr ar gyfer canlyniadau gwael i famau a babanod, mae'n cynyddu'r risg o farw-enedigaethau yn sylweddol a gall achosi asthma mewn plant.

Mae cryn dipyn o dystiolaeth ar y niwed a achosir i blant gan smygu ac anadlu mwg ail-law yn ogystal â'r effaith y mae dechrau smygu yn ifanc yn ei chael ar y tebygolrwydd o barhau i smygu. Ystyriwyd [barn plant a phobl ifanc yng Nghymru](#), yn enwedig pryderon ynghylch defnyddio fêps yn ystod yr ymgynghoriad ar y Bil Tybaco a Fêps ac arfarnwyd effaith lawn y polisi cenhedlaeth ddi-fwg, gan gynnwys ei effaith fuddiol ar blant, mewn [Asesiad Effaith](#) yn ystod proses y Bil. Mae'r Rheoliadau hyn yn cefnogi'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg drwy gyfleu'n glir y gofynion oedran gwerthu er mwyn atal plant rhag cael mynediad at gynhyrchion tybaco.

Er mwyn cefnogi'r broses o roi'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg a'r Rheoliadau hyn ar waith, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal gweithgareddau cyfathrebu, a bydd rhai ohonynt wedi'u targedu at blant a phobl ifanc, er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth eang o ofynion yr oedran gwerthu a nod y polisi o ran diogelu iechyd plant a phobl ifanc.

3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Dros amser, nod y polisi cenhedlaeth ddi-fwg yw lleihau'r defnydd o dybaco yng Nghymru. Bydd hyn yn gwella iechyd y cyhoedd drwy barhau â'r llwybr tuag i lawr yn y defnydd o dybaco a chefnogi nod o sicrhau [cyfradd smygu o 5% yng Nghymru erbyn 2030](#), gan leihau'r niwed sy'n gysylltiedig â defnyddio tybaco felly. Un o themâu allweddol Strategaeth Cymru Ddi-fwg yw '[Cenedlaethau'r Dyfodol](#) ac atal plant a phobl ifanc rhag dechrau smygu. Bydd y Rheoliadau hyn a'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg y maent yn eu cefnogi yn cefnogi'r uchelgais drwy atal cenedlaethau o blant a phobl ifanc yn y dyfodol rhag dechrau smygu yn ogystal â lleihau anghydraddoldebau iechyd a lleihau lefelau amlygiad i fwg ail-law, sy'n arbennig o niweidiol i iechyd plant.

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data ar y defnydd o dybaco ymhlith plant ac oedolion drwy [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) a'r [Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion](#) a fydd yn cael eu hadolygu'n flynyddol i fonitro gweithrediad y polisi a'r Rheoliadau hyn, yn enwedig o ran dechrau smygu ymhlith plant.

O ran smygu yn ystod beichiogrwydd, cofnodwyd bod 12% o fenywod beichiog yn smygwyr yn eu [hasesiad cychwynnol yn 2025](#), y gwyddys ei fod yn cynyddu'r risg o gymhlethdodau yn ystod beichiogrwydd a thu hwnt fel pwysau geni isel, genedigaeth gynamserol a marw-enedigaeth. Roedd cyfraddau smygu ar eu huchaf ymhlith mamau iau a mamau o gefndiroedd ethnig Gwyn a Chymysg. Bydd smygu yn ystod beichiogrwydd yn parhau i gael ei fonitro i ddangos effaith y polisi cenhedlaeth ddi-fwg a'r Rheoliadau hyn.

4. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

Er mwyn cefnogi'r broses o roi'r polisi cenhedlaeth ddi-fwg a'r Rheoliadau hyn ar waith, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal gweithgareddau cyfathrebu, y bydd llawer ohonynt wedi'u targedu at blant a phobl ifanc, er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth eang o ofynion yr oedran gwerthu a nod y polisi o ran diogelu iechyd plant a phobl ifanc.

Bydd effaith y gwaith cyfathrebu hwn a'r ddeddfwriaeth ehangach yn cael ei mesur cyn ac ar ôl yr ymgyrch gyfathrebu er mwyn deall ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc.

5. Monitro ac Adolygu

Fel y'i nodir uchod, bydd cyfraddau smygu ymhlith oedolion, plant ac yn ystod beichiogrwydd yn cael eu monitro i fesur effaith y polisi cenhedlaeth ddi-fwg a'r Rheoliadau hyn dros amser.

Disgwylir hefyd y bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu monitro drwy werthusiad ehangach o Ddeddf 2026, o ystyried bod y Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol o ganlyniad i'r Ddeddf honno. Mae adran 165 o Ddeddf 2026 yn creu gofyniad statudol i'r Ysgrifennydd Gwladol gynnal adolygiad o'i weithrediad o fewn 4-7 mlynedd i'w phasio. Rydym yn disgwyl y bydd yr adolygiad hwn yn casglu unrhyw ganfyddiadau perthnasol fel rhan o'r ystyriaeth o weithrediad y darpariaethau oedran gwerthu a gyflwynwyd gan y Ddeddf.